

Rhifyn 49

Y Nadolig

Santas di-ri

SANTAS DI-RI!

**CYNHADLEDD FLYNYDDOL
23 – 26 GORFFENNAF, 2018, BAKKEN**

Mae'r gynhadledd flynyddol hon yn cael ei chynnal dros dri diwrnod ac mae hi wedi cael ei chynnal yn Bakken, i'r gogledd o Gopenhagen, ers 1957. Bob blwyddyn, mae cannoedd o Santas a'u teuluoedd – pobl fel chi – yn dod i gyfarfod â Santas eraill o bob rhan o'r byd!

PAM DOD I'R CYFARFOD:

- Cyfle i chi fwynhau cwmni Santas eraill
- Cyfle i rannu'ch profiadau
- Cyfle i drafod syniadau am rannu hwyl y Nadolig
- Cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau proffesiynol
- Cyfle i siarad â phobl y byddwch chi'n ymweld â nhw Noswyl Nadolig
- Cyfle i ymweld â Copenhagen, y brifddinas

BETH SY'N DIGWYDD:

- Gorymdeithiau – bydd miloedd o bobl o bob rhan o'r byd yn dod i wyllo! (Cofiwch roi anrhegion a fferins / losin i'r plant)
- Sioe awyr agored "Y Nadolig ym mis Gorffennaf"
- Padlo yn y môr – cofiwch wisgo dillad nofio sy'n addas ar gyfer Santa
- Taith i ganol Copenhagen, mynd ar y gamlas a gorymdaith Santas drwy'r ddinas

Pris – am ddim








Llun: [World Santa Claus Congress 2015 12 - Leif Jørgensen](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 4.0 International](#)

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
di-ri(f)	nifer fawr iawn	countless
cynhadledd	cyfarfod arbennig lle mae pobl yn dod at ei gilydd i drafod pethau	conference, congress
parhau	mynd ymlaen	(to) continue
gorymdeithiau	lluosog gorymdaith; taith lle mae nifer o bobl yn cerdded yn drefnus gyda'i gilydd	processions

Addurniadau di-ri

 <p>Emma</p>	<p>Dw i'n methu credu'r peth! Mae'r ddynes drws nesa wedi mynd dros ben llestri. Mae hi wedi gosod MILOEDD o oleuadau llachar dros ei thŷ ac maen nhw'n fflachio ... fflachio ... fflachio drwy'r nos. Dw i'n methu cysgu!</p>
 <p>Yohei</p>	<p>Paid â bod mor ddiflas! Mae'n Nadolig!</p>
 <p>Emma</p>	<p>Ydy, mae'n Nadolig ond dw i'n METHU CYSGU. Ac, yn ogystal â'r holl oleuadau ofnadwy, mae hi wedi rhoi dau ddyn eira mawr plastig, carw mawr plastig a Siôn Corn mawr plastig ar ganol y lawnt ac yn yr ardd gefn. AC ... ar ben hynny mae hi wedi gosod metrau a metrau o dinsel trwchus sgleiniog o gwmpas y coed afalau yn yr ardd.</p>
 <p>Yohei</p>	<p>Ond mae'n Nadolig!</p>
 <p>Emma</p>	<p>Dw i'n gwybod!!!! Ond pam mae angen yr holl bethau di-chwaeth yma drws nesa? Mae cywilydd arna i pan fydd fy ffrindiau ysgol i'n galw i 'ngweld i!</p>



Yohei

Ond mae'n Nadolig!!!



Emma

Wnei di stopio dweud, "Ond mae'n Nadolig!?" Dw i'n derbyn bod addurniadau a goleuadau'n gallu edrych yn neis iawn mewn rhai lleoedd – os ydyn nhw wedi eu gosod yn chwaethus – ond nid goleuadau a chymeriadau mawr plastig a metrau o dinsel a phethau di-chwaeth eraill yw'r Nadolig.



Yohei

Wel, beth yw'r Nadolig i ti, 'te?



Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
mynd dros ben llestri	mynd yn rhy bell, gwneud mwy nag sydd angen	(to) go "over the top"
di-chwaeth	heb fod yn hyfryd	tacky
ar ben hynny	yn ogystal â hynny	in addition to that
mae cywilydd arna i	dw i'n teimlo cywilydd	(to) feel ashamed
yn chwaethus	yn addas ac yn hyfryd	tastefully

Lluniau'r Nadolig (1)

Mae'r ddau lun yma wedi eu tynnu adeg y Nadolig.

Edrychwch ar y ddau lun yn ofalus ac yna ewch i Dasg 1.

1.



2.



Paratoi ... paratoi ... paratoi

14 Gorffennaf 2017

Annwyl **Gweiddi**,

Wel, dw i'n barod!

Dw i wedi prynu'r anrheg Nadolig olaf ac mae gen i ddigon o bapur lapio i orchuddio'r holl rai eraill dw i wedi eu prynu. Dw i wedi ysgrifennu'r cardiau (prynais i nhw yn y sêls ym mis Ionawr) a nawr dim ond pum mis sydd i fynd tan y Diwrnod Mawr.

Penderfynais i ddechrau'n gynnar eleni ar ôl gweld rhaglen ar y teledu oedd yn sôn am sut mae cwmnïau a busnesau'n gorfod paratoi fisoedd o flaen llaw. Mae rhai cwmnïau'n dechrau meddwl am gynnyrch y Nadolig ac yn trio dychmygu beth fydd yn boblogaidd ac felly'n gwerthu'n dda dros y Nadolig, 18-24 mis o flaen llaw. Felly, mae rhai cwmnïau mawr yn gwybod yn barod beth fydd yn eu siopau nhw ar gyfer Nadolig 2018!

Yn ogystal, mae cwmnïau'n gorfod meddwl am sut maen nhw'n mynd i farchnata'u cynnyrch a denu pobl i mewn i brynu. Meddyliwch am rai o'r hysbysebion Nadoligaidd hyfryd yna ar y teledu bob blwyddyn - mae pobl yn aros yn eiddgar yn ystod mis Hydref a dechrau Tachwedd i weld sut bydd rhai cwmnïau'n hysbysebu. Rhaid bod y cwmnïau wedi bod yn trafod ac yn cynllunio fisoedd cyn i'r hysbysebion ymddangos ar y teledu.

Mae Dad hyd yn oed wedi dechrau paratoi. Mae e'n gweithio mewn canolfan hamdden ac mae e wedi bwcio parti Nadolig y staff yn barod oherwydd bod y tŷ bwyta lle maen nhw'n mynd yn boblogaidd iawn - yn enwedig dros y Nadolig. Y cyntaf i'r felin gaiff falu, ynte!

Wel, i gloi, ga i fod y cyntaf i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi!

Dyna ni, dw i'n mynd i dorheulo ar y traeth nawr.

Nadolig Llawen!

Jo Jones

23 Rhagfyr 2017

Annwyl **Gweiddi**,

Mae Mam yn rhuthro o gwmpas y lle ... yn glanhau ... lapio ... tynnu cacennau bach o'r ffwrn ... rhoi mins peis i mewn i'r ffwrn ... gorffen addurno'r goeden ... tynnu'r mins peis o'r ffwrn ... rhoi cacen sbwng i mewn i'r ffwrn ... brwsio stepen y drws ... golchi ffenestri ... tynnu'r gacen sbwng o'r ffwrn ... rhoi sosejis i mewn i'r ffwrn ... Bobl bach!

Wel, dw i'n barod beth bynnag. Dw i ddim wedi prynu anrhegion, dw i ddim wedi rhoi cardiau a dw i ddim yn bwriadu mynd allan i siopa y prynhawn yma chwaith. I beth mae angen yr holl ruthro o gwmpas? Nid dyna beth ydy'r Nadolig, does posibil. Na, bydda i'n anfon cerdyn Nadolig electronig y prynhawn yma ac yna, dyna ni!

O, cyn i fi anghofio, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Gweiddi. Dyna ni - jobyn bach arall wedi ei wneud!

Alex Smith

Mistar X

Mr X

Anfonwyd: Dydd Mawrth, 21 Tachwedd 2017 10:00

Oddi wrth: e.jones@gwe.cymru.com

At: gweiddi.org

Annwyl Gweiddi

Wnewch chi gynnwys yr e-bost yma yn rhifyn y Nadolig o *Geiriau* os gwelwch yn dda?

Dw i'n byw yng Ngogledd Cymru ac felly doeddwn i ddim yn gwybod tan eleni am elusen ffantastig sydd wedi bod yn helpu plant difreintiedig ar draws De Cymru ers blynyddoedd.

Sôn am Apêl Mr X ydw i, apêl sy'n casglu teganau ac yn eu dosbarthu i blant anghenus.

Tom Bravin ydy enw'r dyn ddechreuodd yr elusen – er, doedd neb yn gwybod pwy oedd Mr X tan iddo farw yn 2016. Am berson diymhongar! Byddai llawer o bobl wedi bod yn falch iawn o gael eu lluniau yn y papurau newydd gyda phentwr o barseli Nadolig i ddangos eu bod nhw'n bobl garedig, weithgar yn y gymuned, ond nid Tom. Gweithio'n dawel ac yn ddiwyd wnaeth o – am 57 o flynyddoedd. Chwarae teg iddo! Bechod nad oes mwy o bobl fel fo o gwmpas!

Mae'r apêl yn rhedeg eleni eto ac mae rhai unigolion a chwmnïau wedi bod yn prynu teganau a llyfrau newydd, eu rhoi mewn bagiau Nadoligaidd a mynd â nhw i ganolfannau casglu arbennig. Oddi yno bydd gwirfoddolwyr yn eu dosbarthu i blant difreintiedig. Gwych!

Dyma enghraifft fendigedig o ysbryd yr Ŵyl. Mae'n ddigon hawdd i ni eistedd yn ôl yn gyfforddus dros y Nadolig a mwynhau, ond dylai pob un ohonon ni fod yn Mr, Mrs neu'n Miss X. Dylen ni ddilyn esiampl Tom Bravin a meddwl am rywun arall! Does dim rhaid i ni feddwl am ymgyrch fawr hyd yn oed, ond gall pob un ohonon ni helpu a gwneud gwahaniaeth i rywun arall y Nadolig yma.

Dewch o'na, Gymry! Meddylwch am rywun arall y Nadolig yma!

Diolch yn fawr.

L. Lewis

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
difreintiedig	heb fod yn freintiedig	underprivileged
anghenus	mewn angen	in need
Bechod!	Dyna drueni!	What a pity / shame!
ymgyrch	gweithredu trefnus er mwyn ceisio cyflawni rhywbeth	campaign

Lluniau'r Nadolig (2)


Mae'r ddau lun yma wedi eu tynnu adeg y Nadolig.

Edrychwch ar y ddau lun yn ofalus ac yna ewch i Dasg 1.

1.



2.



Llun: [@anthonypermal](#) © Twitter

FAINT o galoriau?!

Annwyl gyfeillion,

Mae'n siŵr eich bod chi i gyd yn gwybod faint o galoriau dylai dynion, menywod a phlant eu bwyta / yfed bob dydd.

Wel, oeddech chi'n gwybod bod llawer iawn iawn o bobl – y rhan fwyaf o bobl efallai – yn bwyta mwy na dwywaith y nifer yna ar Ddydd Nadolig? Petaech chi'n gofyn iddyn nhw ar Ddydd San Steffan faint o galoriau maen nhw wedi eu bwyta, bydden nhw'n dweud, "O tua 3 000!" achos dydyn nhw ddim yn sylweddoli eu bod nhw wedi bwyta cymaint.

Ydych **chi'n** gwybod faint o galoriau sydd yn y bwydydd yma, er enghraifft?



sleisen o dwrci



**sosej mewn cig
moch**



pelen o stwffin



tatws rhost



tatws stwnsh



llysiâu gwyrdd



grefi



darn o bwdin Nadolig

Wel, fe gewch **chi** wneud yr ymchwil. Ond ar ben hyn i gyd, rydyn ni'n bwyta cacen Nadolig (tua 220 o galoriau ym mhob darn – yn dibynnu ar faint y darn, wrth gwrs), mins peis (dros 200 o galoriau ym mhob un), siocledi a losin (cannoedd o galoriau – yn dibynnu ar faint rydych chi'n bwyta) ac ati, ac ati, ac ati.

Ond peidiwch â phoeni, dim ond ar un diwrnod y flwyddyn mae hyn yn digwydd – GOBEITHIO! Yn wir, petaech chi'n bwyta fel hyn bob dydd, byddech chi'n rhoi 26 stôn ymlaen a byddech chi'n mynd yn sâl, mae hynny'n sicr!


OND ...

Tra mae rhai ohonon ni'n bwyta'n rhy dda ar Ddydd Nadolig, mae pobl eraill yn gorfod byw ar y nesaf peth i ddim ... a dw i ddim jyst yn sôn am bobl yn Affrica neu mewn gwledydd tlawd ar draws y bydd. Dw i'n cyfeirio at y ffaith bod pobl yn ein gwlad ni ... yng Nghymru ... ym Mhrydain ... yn y Gorllewin ... yn byw ar ychydig iawn – a hynny drwy'r flwyddyn, nid jyst adeg y Nadolig.

Edrychwch ar y ddelwedd yma. Mae'r ffigurau'n dangos faint o becynnau argyfwng – sef pecynnau a oedd yn cynnwys digon o fwyd i bara tri diwrnod – gafodd eu dosbarthu i bobl ym Mhrydain o fis Ebrill tan fis Medi eleni – ie, eleni, yn 2017!



CYFANSWM
CYFLENWAD BWYD
ARGYFWNG
3-DIWRNOD A RODDIR
GAN FANCIU BWYD
TRUSSELL TRUST
EBR-MED 2017*



*Cafwyd yr holl ddata oddi ar wefan Trussell Trust



Mae'r mudiad sy'n gyfrifol am ddsbarthu'r pecynnau yma ac am drefnu banciau bwyd ar hyd a lled y wlad, y Trussell Trust, yn dweud bod 586 907 o'r pecynnau hyn wedi eu dosbarthu i bobl anghenus o fis Ebrill tan fis Medi, o'i gymharu â 519 342 am yr un cyfnod y llynedd. Aeth 208 956 o'r rhain i blant - i blant heb

fwyd yng Nghymru ... ym Mhrydain ... yn y Gorllewin ... yn y flwyddyn 2017 ...
Mae'r sefydliad yn dweud y bydd y sefyllfa'n siŵr o waethygu eto cyn y Nadolig ...

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
argyfwng	sefyllfa beryglus iawn	emergency
mudiad	corff, cymdeithas	movement, organisation
ar hyd a lled	ar draws	all over
anghenus	mewn angen	in need

Canu carolau ... taflu maip ... a llosgi gwallt



Rhagfyr 21

Yr oedd y gwasanaeth y bore yma'n hyfryd. Ar ôl canu'r garol gyntaf fel cynulleidfa, cyhoeddodd y ficer fod y Plygain ar agor ac yna bu tawelwch mawr am rai munudau. Ni chlywyd yr un sŵn yn unman nes i deulu Fron Goch godi a chanu mewn pedwar llais - soprano, alto, tenor a bas. Dyna ddechrau canu'r hen hen garolau Cymraeg. Daeth unigolion, deuawdau a thriawdau i'r blaen i ganu yn eu tro - a mawr oedd mwynhad y rhai a oedd yn gwrando.

Roeddem fel teulu wedi penderfynu canu'r garol, "Ar gyfer heddiw'r bore ..." ond canodd teulu'r Bryn y garol hon cyn i ni gymryd ein tro ac felly bu'n rhaid penderfynu ar garol arall. Diolch i 'nhad, roeddem wedi dewis tair carol y gallem eu canu.

Ar ddiwedd y noson, unodd pawb i ganu "Carol y Swper".

Marged

Rhagfyr 22

Bu digwyddiad rhyfedd iawn yng ngwasanaeth y Plygain yn yr Eglwys* heddiw.

Daeth dyn meddw i mewn i'r eglwys a cherddodd i fyny'r grisiau i'r galeri. Yna, yn ystod y gwasanaeth, taflodd feipen bwdr at y ficer a oedd yn arwain y gwasanaeth.

Roedd hyn yn ddigwyddiad anarferol iawn, wrth gwrs, ond fe'i dilynwyd gan ddigwyddiad mwy rhyfedd byth. Ar ddiwedd y gwasanaeth, cerddodd y ficer tuag at y drws, fel sy'n arferol. Fodd bynnag, yn hytrach na'i agor i ganiatáu i ni fynd adref, clôdd y drws yn glep. Yna, aeth i fyny'r grisiau i'r galeri a tharo'r dyn meddw ar ei gefn gyda'i ffon - gan dorri ei ffon yn hanner!

Ni fu erioed gwasanaeth Plygain mor rhyfedd!

Dafydd

*Eglwys Garthbeibio, Llanfair Caereinion

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
maip	erfin, swêds	swedes, turnips
gwasanaeth y Plygain	gwasanaeth Nadolig arbennig; yn draddodiadol, roedd yn cael ei gynnal yn gynnar iawn yn y bore	Plygain service

Lluniau'r Nadolig (3)

Mae'r ddau lun yma wedi eu tynnu adeg y Nadolig.

Edrychwch ar y ddau lun yn ofalus ac yna ewch i Dasg 1.

1.



2.

